DOGFENNAU SY'N MYND GYDA'R BIL
Caiff Nodiadau Esboniadol a Memorandwm Esboniadol eu hargraffu ar wahân.

Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru)

[FEL Y'I CYFLWYNWYD]

CYNNWYS

Rhagarweiniol

1 Trosolwg
2 Dehongli: "addysg ariannol" etc.
3 Dehongli: "awdurdod lleol"

Addysg ariannol

4 Addysg ariannol i gael ei darparu mewn ysgolion a gynhelir
5 Sefydlu cydran addysg ariannol o'r Cwricwlwm Cenedlaethol
6 Adroddiad Blynyddol
7 Plant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol

Strategaethau cynhwysiant ariannol

8 Dyletswydd awdurdod lleol i gyhoeddi strategaeth
9 Cynnwys y strategaeth
10 Canllawiau

Cyngor am reolaeth ariannol

11 Cyngor i blant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol
12 Gwybodaeth am ffynonellau cyngor
13 Cyngor i fyfyrwyr

Darpariaethau terfynol

14 Cychwyn
15 Teitl byr

Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru)

[FEL Y'I CYFLWYNWYD]

Deddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru i hybu addysg ariannol a chynhwysiant ariannol pobl yng Nghymru.

Gan ei fod wedi ei basio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac wedi derbyn cydsyniad Ei Mawrhydi, deddfir fel a ganlyn:

Rhagarweiniol

1 Trosolwg

Mae'r Ddeddf hon—

(a) yn ei gwneud yn ofynnol i addysg ariannol gael ei haddysgu mewn ysgolion a gynhelir ac i blant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol;

(b) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnal strategaeth cynhwysiant ariannol; ac

(c) yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol mewn perthynas â chyngor am wasanaethau a rheoli arian.

2 Dehongli: "addysg ariannol" etc.

Yn y Ddeddf hon—

"addysg ariannol" yw addysg am wasanaethau ariannol a rheoli arian;

"cynhwysiant ariannol" yw mynediad at wasanaethau ariannol ac addysg ariannol am gost resymol;

Mae "gwasanaethau ariannol" yn cynnwys, yn benodol, cynilion, credyd, morgeisi, yswiriant a gwasanaethau trosglwyddo arian;

Mae "rheoli arian" yn cynnwys defnyddio gwasanaethau ariannol a rheoli dyledion.

3 Dehongli: "awdurdod lleol"

Yn y Ddeddf hon, ystyr "awdurdod lleol" yw cyngor sir neu fwrdeistref sirol yng Nghymru.

Addysg ariannol

4 Addysg ariannol i gael ei darparu mewn ysgolion a gynhelir

Ar ôl adran 101(1)(bb) o Ddeddf Addysg 2002 (cwricwlwm sylfaenol ar gyfer pob ysgol a gynhelir yng Nghymru) mewnosoder—

"(bc) provision for education about financial services and financial management (within the meaning of section 2 of the Financial Education and Inclusion (Wales) Act 2014) for all registered pupils at the school during the second, third and fourth key stages,"

5 Sefydlu cydran addysg ariannol o'r Cwricwlwm Cenedlaethol

Ar ddiwedd adran 108 o Ddeddf Addysg 2002 (sefydlu'r Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer Cymru drwy orchymyn) ychwaneger—

"(12) Before making an order under subsection (3) in respect of education about financial services and financial management the Welsh Ministers must consult persons who appear to them to have relevant expertise."

6 Adroddiad Blynyddol

(1) Ym mhob blwyddyn ariannol, rhaid i Weinidogion Cymru osod adroddiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gynnydd addysg ariannol mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru yn y flwyddyn ariannol flaenorol.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru i baratoi'r adroddiad.

(3) Rhaid i gyfarwyddyd gael ei roi o leiaf dri mis cyn y bydd angen yr adroddiad.

7 Plant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol

Ar ôl adran 78(2)(a) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (prif dyletswydd awdurdod lleol mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal) mewnosoder—

"(aa) dyletswydd i sicrhau bod y plentyn yn cael addysg ariannol briodol (o fewn ystyr adran 2 o Ddeddf Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru) 2014) o saith oed ymlaen."

Strategaethau cynhwysiant ariannol

8 Dyletswydd awdurdod lleol i gyhoeddi strategaeth

(1) Rhaid i awdurdod lleol baratoi a chyhoeddi strategaeth cynhwysiant ariannol.

(2) Cyn cyhoeddi strategaeth cynhwysiant ariannol, rhaid i awdurdod lleol ymgynghori â'r cyfryw bersonau ag y gwêl yn briodol (gan gynnwys sefydliadau yr ymddengys eu bod yn bodoli yn gyfan gwbl neu'n bennaf i ddarparu buddion i gymdeithas neu'r amgylchedd (sefydliadau'r "trydydd sector")).

(3) Rhaid i awdurdod lleol adolygu ei strategaeth cynhwysiant ariannol o leiaf unwaith ym mhob cyfnod o bum mlynedd.

(4) Rhaid i awdurdod lleol gyhoeddi adroddiad ym mhob blwyddyn ariannol yn nodi sut y gweithredodd ei strategaeth cynhwysiant ariannol yn y flwyddyn ariannol flaenorol.

9 Cynnwys y strategaeth

(1) Rhaid i strategaeth cynhwysiant ariannol awdurdod lleol nodi sut y bydd yr awdurdod yn defnyddio ei bwerau i—

(a) hyrwyddo cynhwysiant ariannol unigolion sy'n byw yn ei ardal;

(b) annog unigolion sy'n byw yn ei ardal i feithrin sgiliau llythrennedd ariannol (gan gynnwys dealltwriaeth o oblygiadau ac effeithiau masnachu ar y stryd, hapchwarae a galw diwahoddiad);

(c) annog unigolion sy'n byw yn ei ardal i feithrin sgiliau priodol mewn rheoli arian (gan gynnwys, yn benodol, dealltwriaeth o wasanaethau undebau credyd);

(d) hwyluso mynediad am ddim at wasanaethau addysg a rheoli arian ar-lein (p'un ai drwy lyfrgelloedd neu fel arall);

(e) cydweithio â sefydliadau yn ei ardal sy'n hybu cynhwysiant ariannol.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio is-adran (1) drwy orchymyn a wneir drwy offeryn statudol.

(3) Ni chaniateir gwneud gorchymyn o dan is-adran (2) oni bai—

(a) bod Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori ag awdurdodau lleol; a

(b) bod drafft o'r gorchymyn wedi cael ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a'i gymeradwyo ganddo drwy benderfyniad.

10 Canllawiau

(1) Caiff Gweinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau ynghylch strategaethau cynhwysiant ariannol.

(2) Rhaid i'r awdurdod lleol roi sylw i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir.

Cyngor am reolaeth ariannol

11 Cyngor i blant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol

Rhaid i awdurdod lleol sy'n gyfrifol am berson ifanc categori 1, 2 neu 3 (o fewn ystyr Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014) drefnu bod y person ifanc yn cael cyngor priodol am wasanaethau ariannol a rheoli arian.

12 Gwybodaeth am ffynonellau cyngor

(1) Rhaid i awdurdod lleol—

(a) cynnwys gwybodaeth ar ei wefan am ble i gael cyngor ynghylch rheoli arian; a

(b) darparu'r wybodaeth honno ar gais.

(2) Caiff awdurdod lleol ddarparu cyngor am reolaeth ariannol pan fo'n credu nad yw'r cyngor ar gael yn rhesymol fel arall.

13 Cyngor i fyfyrwyr

Rhaid i awdurdod lleol gymryd camau rhesymol i sicrhau bod prifysgolion a chorfforaethau addysg bellach yn ei ardal yn darparu cyngor am reolaeth ariannol i fyfyrwyr.

Darpariaethau terfynol

14 Cychwyn

(1) Daw darpariaethau uchod y Ddeddf hon i rym ar ddiwrnod a bennir gan Weinidogion Cymru mewn gorchymyn a wneir drwy offeryn statudol (yn ddarostyngedig i is-adran (4)).

(2) Caiff gorchymyn o dan is-adran (1)—

(a) pennu gwahanol ddyddiau at wahanol ddibenion; a

(b) cynnwys darpariaethau cysylltiedig, canlyniadol, neu drosiannol.

(3) Mae offeryn statudol sy'n cynnwys gorchymyn o dan adran 14(2)(b) yn ddarostyngedig i'w ddirymu yn unol â phenderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

(4) Bydd unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf hon nad yw wedi dod i rym erbyn 1 Ionawr 2018 yn dod i rym ar y dyddiad hwnnw.

15 Teitl byr

Teitl byr y Ddeddf hon yw Deddf Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru) 2014.